

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

30 Hydref 2018

Annwl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr ar 18 Hydref oedd yn holi nifer o gwestiynau yn sgil cyfarfod y Pwyllgor i ystyried Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU. Rwy'n croesawu'r cyfle i egluro'r darpariaethau Cymreig ymhellach. Rwyf wedi ceisio ateb eich cwestiynau yn y drefn y gwnaethoch chi eu gofyn nhw. Mewn ambell le, rwyf wedi crynhoi'r atebion yn grwpiau os gall hynny helpu i esbonio'r sefyllfa'n well.

O ran rhoi ychydig o'r cyd-destun, mae Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru 'Brexiteu a'n Tir' yn esbonio'n cynigion ar gyfer cefnogi ffermwyr yn y dyfodol ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'n ymgynghori ar gynigion i symleiddio'r cynlluniau presennol ac ar raglen rheoli tir newydd a allai gymryd lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn ei gyfanrwydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Hydref ac rydyn ni wrthi'n ystyried yr ymatebion. Nid oes penderfyniadau wedi'u gwneud, gan gynnwys ynghylch amserlen cyflwyno'r cynlluniau newydd, a chaiff ymgynghoriad arall ei gynnal yn y gwanwyn cyn gwneud penderfyniadau manwl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyfarwyddais Lywodraeth y DU i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth er mwyn rhoi sicrwydd i sector amaeth Cymru wrth i Lywodraeth y DU barhau i drafod telerau perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Gallaf gadarnhau ei bod yn dal yn fwriad gennyf gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ger bron y Cynulliad ond ni fydd yn debygol o fod yn barod ar gyfer 2020 oherwydd y pwysau ar yr amserlen ddeddfwriaethol. Mae angen y darpariaethau Cymreig yn y Bil arnom nawr er mwyn rhoi'r sail cyfreithiol i Weinidogion Cymru allu cadw'r cynlluniau presennol ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac i roi'r hyblygrwydd inni yn y cyfnod pontio i roi cynlluniau newydd ar waith os mai dyna sydd ei angen. Heb bwerau o'r fath, ni fydd Llywodraeth Cymru'n gallu parhau i dalu cymorth i ffermwyr yn 2020 na symleiddio'r cynlluniau presennol, er enghraifft, trwy ddiddymu elfen wyrddu'r Cynllun Taliad Sylfaenol a symleiddio'r drefn talu ffermwyr trawsffiniol. Mae'r pwerau'n rhoi'r hyblygrwydd i ddechrau'r broses bontio, unwaith y caiff penderfyniadau polisi eu gwneud ynghylch natur y cynlluniau newydd.

O ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit, credais na fyddai'n briodol cynnwys darpariaeth 'fachlud' benodol yn ymwneud â'r pwerau hyn ar wyneb y Bil. Nid yw'r darpariaethau yn y Bil wedi'u cyfyngu felly gan amser. Gallaf gadarnhau y bydd y pwerau'n rhai pontio ac y bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru'n eu disodli ymhen amser. Rwyf am gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn.

Hoffwn dawelu meddwl y Pwyllgor mai pwerau galluogi bras yw'r pwerau hyn ac nad ydyn nhw'n cyfyngu ar ein gallu i wneud penderfyniadau polisi yn y dyfodol na chwaith yn rhagnodi'r penderfyniadau hynny. Bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod angen i'r ddeddfwriaeth fod yn barod mewn da bryd er mwyn i'r Llywodraeth allu ymateb yn gyflym unwaith y caiff penderfyniadau eu gwneud. Rwy'n cydnabod pryderon y Pwyllgor ynghylch y pwerau sylweddol i wneud rheoliadau a geir yn y Bil i Weinidogion Cymru. Rwyf am ymrwymo i ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid os penderfynwn ni ddefnyddio'r pwerau hyn. Rydyn ni eisoes yn ymgynghori ar bolisi'r dyfodol ac wedi dweud ein bod am gynnal ymgynghoriad arall cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r taliadau. Pwerau galluogi cyffredinol yw'r pwerau yn y Bil Amaethyddiaeth ac mae angen is-ddeddfwriaeth ar wahân i'w rhoi ar waith. Caiff y Cynulliad a'r Pwyllgor felly gyfle i gael golwg fanwl arnyn nhw.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth ynghylch sut y gellid defnyddio'r pwerau yn Atodlen 3, Rhan 1 i ddirprwyo swyddogaethau ar gyfer rhoi cymorth ariannol. Â siarad yn gyffredinol, byddai'r pwerau'n caniatáu i amrywiaeth eang o gynlluniau talu posib gael eu creu. Y bwriad yw na fydd cyfyngiad ar gwmpas y pwrpasau y caiff Gweinidogion Cymru roi cymorth ariannol ar eu cyfer. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch defnyddio a phwrpas y pwerau. Bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a pherthynas y DU â'r UE ac â gweddill y byd yn y dyfodol.

Fel y dywedwch, mae'r cyfnod pontio ar gyfer amaeth yng Nghymru yn debyg i'r hwnnw ar gyfer Lloegr yn y Bil. Mae hyn yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud rhagdybiaeth niwtral a pheidio â rhagweld canlyniadau'r ymgynghoriad. Gan ein bod yn ymgynghori ar gyfnod pontio rhwng 2020 a 2025, byddai'n amhriodol i hynny fod ar wyneb y Mesur. Mae'n darpariaethau cyfreithiol ar gyfer y pontio amaethyddol yn debyg i'r rheini o eiddo Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr. Ond gellid eu newid os gwelir bod angen ar ôl i'r penderfyniad ynghylch hyd y cyfnod pontio yng Nghymru gael ei wneud.

Mae'r Bil yn caniatáu symleiddio'r drefn trwy bŵer i newid cyfraith Ewropeaidd sydd wedi'i chadw ynghylch taliadau uniongyrchol. Mae'r pwerau hyn ar wahân i'r darpariaethau sy'n darparu ar gyfer cymorth ariannol yn y dyfodol trwy gynlluniau rheoli tir newydd. Bydd is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) yn gwneud gwelliannau gweithredol i reoliadau'r taliadau uniongyrchol. Gallai'r pwerau o dan y Bil Amaeth ganiatáu newidiadau pellach i'r rheoliadau hynny os gwelir bod angen. Byddai angen ymgynghori ymhellach â'r rheini yr effeithir arnynt a gweithio i ddeall y risgiau a ddaw o newid y taliadau i ffermwyr.

Mae swyddogion yn parhau i drafod y cymalau am y WTO a'r Ardoll Cig Coch â Llywodraeth y DU, ac rwy'n gobeithio gweld yr anawsterau hyn yn cael eu datrys wrth i'r Bil fynd trwy Senedd y DU.

O ran amser, pasiodd y Bil ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref ac y mae yn awr wedi cyrraedd y Pwyllgor. Cyfarfu Pwyllgor y Biliau Cyhoeddus ddydd Mawrth, 23 Hydref 2018 a disgwylir iddo gyflwyno'i adroddiad i'r Tŷ erbyn dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018. Y tu hwnt i hynny, mater i Senedd y DU yw amserlen y camau wedi hynny ond gallaf gadarnhau i'r Pwyllgor bod fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU i sicrhau ei bod yn rhoi'r ystyriaeth briodol i ddarpariaethau Cymru.

Fy amcan clir yw cadw pwerau bras i Weinidogion Cymru wrth i'r Bil fynd trwy'r Senedd. Os caiff gwelliannau eu cynnig i'r darpariaethau yn Lloegr, byddwn yn eu hystyried yn ofalus bob yn achos i weld a oes angen gwelliannau cymharol yng Nghymru. Os caiff gwelliannau eu gwneud i ddarpariaethau Cymru a bod angen caniatâd arnyn nhw, rwy'n cadarnhau y caiff Memorandwm Ategol ei gyflwyno.

Rydych wedi gofyn imi roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Rwy'n fwy na pharod gwneud hynny a bydd ysgrifennydd fy Nyddiadur yn cysylltu â chi i gadarnhau.

Cofion,



Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

